# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 3

FFURFLENNI TRETH, YMHOLIADAU AC ASESIADAU

## PENNOD 4

YMHOLIADAU ACC

*Atgyfeirio yn ystod ymholiad*

### 46 Atgyfeirio cwestiynau at dribiwnlys yn ystod ymholiad

(1) Ar unrhyw adeg pan fo ymholiad yn mynd rhagddo caniateir i'r person a ddychwelodd y ffurflen dreth ac ACC, ar y cyd, atgyfeirio unrhyw gwestiwn sy'n codi mewn cysylltiad â chynnwys y ffurflen dreth at y tribiwnlys.

(2) Rhaid i'r tribiwnlys ddyfarnu ynghylch unrhyw gwestiwn a atgyfeirir iddo.

(3) Caniateir gwneud mwy nag un atgyfeiriad o dan yr adran hon mewn perthynas ag ymholiad.

### 47 Tynnu atgyfeiriad yn ôl

Caiff ACC neu'r person a ddychwelodd y ffurflen dreth dynnu atgyfeiriad a wnaed o dan adran 46 yn ôl.

### 48 Effaith atgyfeirio ar ymholiad

(1) Tra bo achos ynghylch atgyfeiriad o dan adran 46 yn mynd rhagddo mewn perthynas ag ymholiad—

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(a) ni chaniateir dyroddi hysbysiad cau mewn perthynas â'r ymholiad (gweler adran 50), a

(b) ni chaniateir gwneud cais am gyfarwyddyd i ddyroddi hysbysiad cau (gweler adran 51).

(2) Mae achos ynghylch atgyfeiriad yn mynd rhagddo—

(a) pan fo atgyfeiriad wedi ei wneud a heb ei dynnu'n ôl, a

(b) pan na fo dyfarniad terfynol wedi ei wneud ynghylch y cwestiwn a atgyfeiriwyd.

## 49 Effaith dyfarniad

(1) Mae dyfarniad o dan adran 46 yn rhwymo'r partïon i'r atgyfeiriad yn yr un ffordd, ac i'r un graddau, â phenderfyniad ar fater rhagarweiniol mewn apêl.

(2) Rhaid i ACC roi ystyriaeth i'r dyfarniad—

(a) wrth ddod i gasgliadau ynghylch yr ymholiad, a

(b) wrth lunio unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen dreth a all fod yn ofynnol er mwyn rhoi effaith i'r casgliadau hynny.

(3) Ni chaniateir ailedrych yn ystod apêl ar y cwestiwn y dyfarnwyd yn ei gylch, ac eithrio i'r graddau y gellid ailedrych arno os dyfarnwyd yn ei gylch fel mater rhagarweiniol mewn apêl.